RHONDDA CYNON TAF

# *CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
# *COUNTY BOROUGH COUNCIL*

CHWECHED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AR HUGAIN Y CYNGOR
TWENTY-SIXTH ANNUAL COUNCIL

## Dydd Mercher 26 Mai 2021 am 3.00pm
## Wednesday 26TH May, 2021 at 3.00 pm

*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa’r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Swyddog Cyswllt: Julia Nicholls (07385 086814)

**DYMA WŶS I CHI** i chweched Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar hugain **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** a fydd yn cael ei gynnal ar-lein **DYDD MERCHER, 26AIN MAI, 2021** am **3.00 PM.**

.

**AGENDA** **Page No’s**

## 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## 2. ETHOLIADAU A PHENODIADAU

*a)* Ethol Llywydd y Cyngor.

b) Ethol Dirprwy Lywydd y Cyngor.

c) Derbyn anerchiad gan Faer y Cyngor ar gyfer 2020-2021.

d) Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.
(Er mwyn i'r Maer gyhoeddi ei gymar/ei chymar ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022)

e) Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.
(Er mwyn i'r Dirprwy Faer gyhoeddi ei gymar/ei chymar ar

gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022)

f) Penodi Arweinydd y Cyngor.

g) Cadarnhau bod Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn cael ei benodi'n/ei phenodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.

**3. SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL**

Nodi Cynllun yr Arweinydd parthed Dirprwyo Llywodraethol, gan gynnwys penodi Dirprwy Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet, i'w cyflwyno gan yr Arweinydd yn ystod cyfarfod o'r Cyngor.

**4. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**7 - 12**

**5. CYFANSODDIAD Y CYNGOR - NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A MATERION ATEGOL**

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**13 - 32**

**6. CYFLOGAU A LWFANSAU AELODAU - ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**33 - 44**

**7. PENODI AELODAU PWYLLGORAU 2021-2022**

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhannu argymhellion mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r Pwyllgorau canlynol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

**45 - 48**

**8. PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION 2021-2022**

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n nodi bod angen:

a) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
b) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
c) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau
d) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion
e) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn
f) Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

g) Penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu canlynol:

- Trosolwg a Chraffu
- Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad
- Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc
- Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles

**49 - 52**

**9. CYRFF LLED FARNWROL/PWYLLGORAU AD HOC 2021-2022**

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n nodi bod angen penodi Aelodau ar gyfer y pwyllgorau canlynol:

a) Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (5 Aelod). (3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 o Grŵp Annibynnol RhCT)

b) Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (x5 Aelod – 3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 o Grŵp Annibynnol RhCT)

c) Cydbwyllgor Ymgynghori (4 Aelod)

**53 - 54**

**10. CYRFF ALLANOL A PHENODIADAU I BWYLLGORAU ERAILL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n nodi bod angen penodi cynrychiolwyr i'r cyrff allanol canlynol:

a) Cydbwyllgor Addysg Cymru (1 cynrychiolydd)
b) Bwrdd y Llywodraethwyr - Coleg y Cymoedd (1 Aelod, 1 Swyddog)
c) Cyngor Cyswllt Cymru (1 cynrychiolydd)
d) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (5 cynrychiolydd)
e) Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1 cynrychiolydd / 1 dirprwy)
f) Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (1 cynrychiolydd)
g) Elusen Edward Thomas (4 cynrychiolydd)
h) Y Gynghrair (3 chynrychiolydd)
i) Pwyllgor Cyswllt Safle Glofa'r Tŵr (3 chynrychiolydd)
j) Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid (1 cynrychiolydd)
k) Fforwm Economaidd De Cymru (1 cynrychiolydd)
l) Ymddiriedolaeth Judges Hall (3 chynrychiolydd)
m) Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (1 cynrychiolydd)
n) Y Gymdeithas Randiroedd (1 cynrychiolydd)
o) Tribiwnlys Prisio Cymru - Panel Penodi (1 cynrychiolydd)
p) Age Concern Cymru (1 cynrychiolydd)
q) Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon (1 cynrychiolydd)
r) Trivalis (penodi swyddog)

**Cydbwyllgorau Anweithredol**

s) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (x4)

t) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (x1)
u) Panel Trosedd Heddlu De Cymru (x2)
v) Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf (x3)

**55 - 58**

## 11. CALENDR O GYFARFODYDD AR GYFER 2021-2022

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â'r calendr o gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021-2022.

**59 - 80**

## LLYWODRAETHU AGORED

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021: TROSOLWG A CHRAFFU

Derbyn Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021: Trosolwg a Chraffu - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Adams.

**81 - 124**

## 13. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.